Senedd Cymru
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
—
Welsh Parliament
Legislation, Justice and Constitution Committee

Jeremy Miles AS, y Cwnsler Cyffredinol
Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

21 Rhagfyr 2020

Annwyl gyfeillion

Torri'r rheol 21 diwrnod

Fe wnaethom ysgrifennu atoch ar 22 Hydref 2020 i nodi bod y Pwyllgor wedi ystyried 12 offeryn a osodwyd **yn groes i'r rheol 21 diwrnod** ac wedi adrodd arnynt, ers ein cyfarfod ar 14 Medi 2020. Ers ein llythyr dyddiedig 22 Hydref, rydym wedi ystyried wyth offeryn arall o'r fath ac wedi adrodd arnynt.

Roedd ein hadroddiadau ar yr offerynnau hyn yn nodi'r rhesymau dros dorri'r rheolau, fel y'u nodwyd yn llythyrau'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at y Llywydd.

Rydym yn cydnabod bod saith o'r wyth cyfres o reoliadau a ystyriwyd gennym yn ystod y cyfnod hwn yn ymwneud â chyfyngiadau teithio rhyngwladol brys o ganlyniad i bandemig Covid-19. Rydym yn derbyn y rhesymau dros dorri rheolau o'r fath.

Byddwch yn ymwybodol y gall fod goblygiadau i'r rhai yr effeithir arnynt gan ddeddfwriaeth sy'n dod i rym ar fyr rybudd. Byddwch hefyd yn ymwybodol bod gofynion adran 11A(4) o *Ddeddf Offerynnau Statudol 1946* adlewyrchu arwyddocâd deddfwriaeth o'r fath a phenderfyniadau o'r fath gan Weinidogion Cymru.

Am y rhesymau hyn yr ydym wedi bod yn monitro amlder achosion Gweinidogion Cymru o dorri'r rheol 21 diwrnod, a pham ei bod yn bwysig nad yw'r arfer yn cael ei normaleiddio mewn unrhyw ffordd. Byddwn yn parhau i fonitro amlder ac

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

amgylchiadau torri rheolau yn y dyfodol ac efallai y byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i'r mater hwn wrth i ni nesáu at ein gwaith gwaddol.

Yn gywir

Mick Antoniw AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English